Rhif: **WG25568**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru



Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Gwella'r cyfleoedd i gael mynediad i'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol

Dyddiad cyhoeddi: **10 Gorffennaf 2015**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **2 Hydref 2015**

OGL © Hawlfraint y Goron 2015

## Trosolwg

Rydym am glywed eich barn a'ch sylwadau ynghylch cynigion i wella'r cyfleoedd i gael mynediad i'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol.

Y bwriad yw edrych ar botensial deddfwriaeth symlach, fwy integredig ar fynediad i'r awyr agored a hawliau tramwy.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori byddwn yn cynnal asesiadau effaith llawn ar y pynciau canlynol: Bioamrywiaeth, Newid yn yr Hinsawdd, Hawliau Plant a Phobl Ifanc, Tlodi, Cydraddoldeb a'r Gymraeg.

## Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 2 Hydref 2015. Gallwch ymateb drwy ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol.

Cyfeiriad:

Y Gangen Tirwedd a Hamdden Awyr Agored
Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3UR

E-bost: MynediadaHamdden@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 0300 062 2246

Ffurflen ymateb ar-lein: Mae'r ffurflen ar gael ar ein gwefan www.llyw.cymru

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Ffoniwch ni ar 0300 062 2246 neu anfonwch e-bost at:
MynediadaHamdden@cymru.gsi.gov.uk i ofyn am gopi.

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Tirwedd a Hamdden Awyr Agored
Llanbadarn Fawr, Rhodfa Padarn, Aberystwyth
SY23 3UR
E-bost: MynediadaHamdden@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 0300 062 2246

## Diogelu data

**Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni:**

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Cynnwys

Rhagair y Gweinidog

Geirfa

Mynediad a Hamdden Awyr Agored

1. Cyflwyniad
2. Ein gweledigaeth ar gyfer mynediad a hamdden awyr agored yng Nghymru
3. Manteision hamdden awyr agored
4. Y sefyllfa bresennol: cynnydd a heriau
    - 4.1 Deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol
    - 4.2 Cynnydd
    - 4.3 Newidiadau i gyfranogiad
    - 4.4 Heriau
5. Opsiynau posibl ar gyfer newid
    - 5.1 Mynediad i dir
    - 5.2 Mynediad i ddŵr
    - 5.3 Mynediad i'r arfordir
    - 5.4 Cod statudol

Casgliad

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

## Rhagair gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol

Mae cyfleoedd i fynd i'r parc, ymweld â chefn gwlad neu gymryd rhan yn un o'r gweithgareddau awyr agored y gall Cymru eu cynnig yn rhan bwysig iawn o fywyd bob dydd nifer o bobl yng Nghymru. Rydym yn ffodus bod gennym filltiroedd o lwybrau sy'n caniatáu i 'r cyhoedd grwydro a mwynhau byd natur, ynghyd â chreigiau byd-enwog i'w dringo a llwybrau beicio mynydd. Ymysg y manteision y gall gweithgareddau awyr agored eu cynnig mae gwell iechyd drwy wneud ymarfer corff a chyfle i dreulio amser gyda'r teulu, ond maent hefyd yn cynhyrchu tipyn o incwm i'n heconomi. Mae nifer o fusnesau ar draws Cymru'n darparu gweithgareddau neu'n cynnig cyfleusterau perthnasol, gan gynnwys llefydd i aros neu fwyta, neu greu a dosbarthu cyfarpar.

Mae mynediad i'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden yn rhan allweddol o'n polisi adnoddau naturiol. Mae Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn ceisio cyflwyno dull newydd, mwy integredig a chynaliadwy o reoli ein hadnoddau naturiol gan eu bod yn darparu nifer o wasanaethau, gan gynnwys cyfleoedd hamdden yn yr awyr agored. Hefyd gall gweithgareddau o'r fath wneud cyfraniad gwerthfawr ar gyfer cyflawni'r nodau tymor hir a osodwyd yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i sicrhau Cymru lewyrchus; gydnerth; iachach; fwy cyfartal; â chymunedau cydlynus; ac â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Byddai gwelliannau i'r ffordd rydym yn rheoli ac yn darparu llwybrau cyhoeddus yn helpu i ddatblygu y newid mewn diwylliant y mae ei angen i ddatblygu'r blaenoriaethau a nodwyd o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Trwy ddarparu llwybrau teithio llesol a chreu rhagor o gyfleoedd ar garreg y drws ar gyfer gweithgareddau hamdden, byddem yn helpu i leihau'r angen i deithio mewn ceir.

Mae'n bwysig i ni fedru parhau i ddiwallu anghenion hamdden, nawr ac yn y dyfodol. Ond rhaid i ni wneud hyn mewn ffyrdd sy'n lleihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol sy'n gofalu am y llwybrau, neu ar y tirfeddianwyr a'r rheolwyr tir sydd angen cydbwyso anghenion ffermio neu goedwigaeth gyda'r gofynion mynediad i'r cyhoedd.

Felly rwy'n falch iawn o gyhoeddi'r ymgynghoriad hwn ar wella'r cyfleoedd i gael mynediad i'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden.

Rwyf wedi clywed nifer o sylwadau ynghylch ffyrdd o wella'r system bresennol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i chi drafod y cynigion a chymryd rhan adeiladol yn y drafodaeth, er mwyn i ni symud ymlaen i greu'r system orau o gael mynediad i'r awyr agored yng Nghymru.

# Geirfa

**Llwybr Ceffylau**
Llwybrau sy'n cael eu defnyddio'n gyfreithlon gan gerddwyr, ceffylau a beicwyr

**Cilffordd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig**
Ffyrdd sy'n cael eu defnyddio'n gyfreithlon gan bob defnyddiwr, gan gynnwys y rhai mewn cerbydau modur

**Map a Datganiad Diffiniol**
Mae dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i gadw cofnod o'r holl hawliau tramwy yn eu hardaloedd. Mae'r cofnod hwn ar ffurf map papur a datganiad ategol.

**Gorchymyn Addasu Mapiau Diffiniol**
Gorchymyn cyfreithiol i ddiwygio'r map diffiniol a'r datganiad

**Gorchymyn Digwyddiad**
Gorchymyn cyfreithiol i greu neu ddiddymu hawliau tramwy

**Llwybr Troed**
Llwybrau sy'n cael eu defnyddio'n gyfreithlon gan gerddwyr. Mae'r rhan fwyaf o hawliau tramwy yn lwybrau troed.

**Gwerth Ychwanegol Gros**
Mesur o gyfraniad pob cynhyrchydd unigol, diwydiant neu sector yn y DU i'r economi

**Hawliau Uwch**
Term sy'n cael ei ddefnyddio'n aml i ddisgrifio hawliau heblaw am gerdded ar lwybrau cyhoeddus a phriffyrdd eraill, fel hawliau llwybrau ceffylau neu gilffyrdd.

**Deddfwriaeth Sylfaenol**
Deddfau neu statudau

**Cilffordd Gyfyngedig**
Llwybrau sy'n cael eu defnyddio'n gyfreithlon gan yr un grwpiau â'r llwybrau ceffylau, gyda chaniatâd hefyd i gerbydau sy'n cael eu tynnu gan geffylau a cherbydau eraill heb fodur

**Cynllun Gwella Hawliau Tramwy**

Mae dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddatblygu cynlluniau sy’n pennu, cynllunio a blaenoriaethu gwelliannau i’w rhwydwaith hawliau tramwy.

**Ffyrdd a Ddefnyddir fel Llwybrau Cyhoeddus**
Llwybrau sy’n cael eu defnyddio’n bennaf at ddibenion llwybrau troed neu lwybrau ceffylau, sydd o bosib (ond nid o reidrwydd) â hawliau i gerbydau. Newidiodd y term hwn i “Cilffordd Gyfyngedig” dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

**Is-ddeddfwriaeth**
Offerynnau Statudol, Codau, Gorchmynion, Rheoliadau

# 1. Cyflwyniad

Un o amcanion allweddol Llywodraeth Cymru yw rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gydgysylltiedig sy'n darparu manteision gwirioneddol hirdymor i bobl, yr amgylchedd, yr economi, ein diwylliant a'n cymunedau. Un o elfennau hanfodol hyn yw galluogi pobl o bob gallu a medrusrwydd i gael y cyfle i fwynhau a gwerthfawrogi'r awyr agored, boed hynny ein tirweddau trawiadol neu fannau gwyrdd mewn ardaloedd trefol. Mae gallu pobl, yn enwedig y rheini yr effeithir arnynt gan dlodi, i gael mynediad i amwynderau hamdden yn hanfodol er mwyn cael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol.

Mae gwariant ar weithgareddau hamdden gan ymwelwyr a phreswylwyr yn bwysig iawn i gymunedau lleol ac i economi ehangach Cymru. Mae cynyddu nifer yr ymwelwyr sy’n dod i Gymru yn golygu cystadlu â lleoliadau eraill, a bydd hyn yn dibynnu ar y cyfleusterau a'r seilwaith a gynigir.

Mae manteision iechyd, cymdeithasol ac economaidd gweithgareddau awyr agored, boed hynny ar ffurf cerdded, beicio, marchogaeth neu fwynhau natur, wedi'u cydnabod a'u hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru ers dros 10 mlynedd. Yn ei chynllun strategol ar gyfer 2011-16, y Rhaglen Lywodraethu, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo ei hun i:

- wella mynediad cyhoeddus i dir a dŵr, gan roi mynediad gwell i deuluoedd a phlant ifanc;
- gwella hawliau tramwy i feicwyr a cherddwyr; a
- chreu Llwybr Arfordir Cymru erbyn 2012.

Cafodd yr ymrwymiad i gwblhau Llwybr Arfordir Cymru yn 2012 ei gyflawni ar amser. Llwyddwyd i ddenu sylw’r cyfryngau ledled y byd, gan greu cryn dipyn o incwm i Gymru.

Mae'r awyr agored yn cynnig cyfleoedd ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau. Mae'r rhain, pan gânt eu cynnal yn gyfrifol, yn cydfodoli â'i gilydd ac â defnydd tir megis ffermio a choedwigaeth. Mae hamdden awyr agored yn dod â manteision sylweddol i economi Cymru, ac mae'n creu manteision iechyd sylweddol i'r boblogaeth. Trwy roi cyfleoedd gwell i bobl fwynhau'r awyr agored, mae'n bosibl helpu i fynd i'r afael â'r holl amcanion polisi y mae Llywodraeth Cymru yn mynd ar eu trywydd. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogi'r economi trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer twf swyddi a chynhyrchu incwm, gan annog cymunedau gwledig llewyrchus, trechu tlodi a gwella iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

Ers datganoli, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud i ehangu mynediad i fathau amrywiol o hamdden awyr agored. Mae'r tir sy'n hygyrch trwy hawl i'r cyhoedd wedi

treblu trwy weithredu'r hawl mynediad statudol ar droed i tua 350,000 hectar o dir agored a thir comin cofrestredig, ynghyd â 100,000 hectar arall o goetir Llywodraeth Cymru, a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Erbyn hyn, mae tua 4,700 milltir ychwanegol o hawliau tramwy cyhoeddus yn rhwydd i'w defnyddio ers i'r gwaith ddechrau yn 2008 ar weithredu'r Cynlluniau Gwella.

Fodd bynnag, mae nifer o randdeiliaid yn hyrwyddo newid, ac mae grwpiau defnyddwyr, tirfeddianwyr ac awdurdodau lleol yn awgrymu nad yw'r ddeddfwriaeth gyfredol yn hwyluso na'n rheoleiddio gweithgareddau hamdden awyr agored yn effeithiol. Ystyrir bod y ddeddfwriaeth gyfredol wedi dyddio, yn ddarniog, yn feichus i'w gweinyddu, ac yn aml yn anodd i'r cyhoedd ei deall. Mae rhai grwpiau defnyddwyr yn rhwystredig ynghylch natur rwystrol y rheolau presennol sy'n diwallu anghenion cerddwyr yn bennaf, ac i raddau llawer llai, marchogion a beicwyr. Mae tirfeddianwyr yn teimlo'n rhwystredig oherwydd y gweithdrefnau cymhleth a drud sy'n berthnasol i hawliau tramwy cyhoeddus, a'r amwysedd ynghylch rheoleiddio gweithgareddau penodol, neu ymddygiad anghyfrifol. Mae'r awdurdodau lleol sy'n bennaf cyfrifol am weinyddu'r broses bresennol wedi nodi ei bod yn hen bryd diwygio'r trefniadau gweinyddu. Mae'r costau a'r gweithdrefnau perthnasol yn rhwystro'u gallu i ddarparu rhwydweithiau o lwybrau sy'n addas at y diben.

Mae effaith lefelau isel o weithgarwch corfforol ar iechyd, yn enwedig ymysg cymunedau difreintiedig, yn bryder difrifol i'r Llywodraeth hon. Er mwyn i hamdden awyr agored chwarae ei ran wrth helpu i fynd i'r afael â'r broblem hon, mae angen darparu amrywiaeth ehangach o weithgareddau a mynediad gwell yn agos at le mae pobl yn byw mewn ffordd sy'n rhwydd ei mynegi a'i defnyddio. Mae'r math hwn o ddarpariaeth yn adlewyrchu tueddiadau yn y ffordd y mae pobl yn dymuno defnyddio cefn gwlad, ond gall fod yn anodd darparu hyn trwy'r ddeddfwriaeth gyfredol.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn archwilio'r problemau o ran darparu'r cyfleoedd hamdden cywir yn y lleoedd cywir. Ei ddiben yw archwilio'r potensial i ddatblygu deddfwriaeth gyfoes a fydd yn adlewyrchu'n well y galw am weithgareddau hamdden awyr agored, nawr ac yn y dyfodol. Bydd hefyd yn darparu fframwaith rheoleiddio newydd sy'n caniatáu defnydd tir a dŵr synhwyrol a chyfrifol ar gyfer gweithgareddau hamdden difodur, gyda chamau diogelu addas at y diben ar gyfer rheoli tir, gweithgareddau eraill a bywyd gwyllt.

Trwy'r ymgynghoriad hwn, nid bwriad Llywodraeth Cymru yw diwygio, na cheisio diwygio, deddfwriaeth sy'n ymwneud â hela, pysgota a saethu, er y croesawir sylwadau ar sut y gall unrhyw newidiadau sydd o fewn ei chwmpas effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar y gweithgareddau hyn.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer mynediad a hamdden awyr agored i fod yn sail i gynnwys yr ymgynghoriad hwn. Trwy'r cyfnod cyn-ymgynghori gwreiddiol, a oedd yn cynnwys tri gweithdy,

caniatawyd grwpiau â buddiant i nodi'u barn a hwyluso trafodaethau pwysig am y materion dan sylw. Mae'r ddogfen hon wedi nodi a strwythuro'r amrywiaeth eang o dystiolaeth a barn a gyflwynwyd yn ystod y broses hon. Mae barn yn cael ei cheisio gan unigolion a sefydliadau, yn enwedig y rheini nad ydynt wedi gallu cyfrannu at yr adolygiad hyd yn hyn, ar y ddeddfwriaeth gyfredol a'r fframwaith rheoleiddio sy'n llywodraethu mynediad i'r awyr agored ar gyfer hamdden. Rydym am gael tystiolaeth bellach o ran y modd y gellid gwella'r trefniadau presennol, boed hynny trwy ddiwygio'r ddeddfwriaeth gyfredol, neu'r posibilrwydd o greu fframwaith rheoleiddio cwbl newydd.

Nid oes bwriad cyflwyno deddfwriaeth ynghylch mynediad yn ystod y Tymor Cynulliad hwn (2011-2016). Ceisir syniadau a sylwadau ar yr hyn y gellir ei wneud trwy ddulliau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol. Bydd eich barn yn cael ei ystyried wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer gweddill y tymor hwn, a phenderfyniadau Llywodraeth yn y dyfodol.

## 2. Ein gweledigaeth ar gyfer mynediad a hamdden awyr agored yng Nghymru

Er ei bod yn glir bod Cymru wedi profi cynnydd yn y cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer cael mynediad i'r awyr agored ers datganoli, mae modd gwneud rhagor i wella'r trefniadau presennol trwy ddulliau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol. Yr her yw gwneud gwelliannau i fynediad er mwyn cyflawni manteision niferus, tra'n mynd i'r afael â phryderon ynghylch effeithiau negyddol mynediad mewn rhai lleoedd ac effaith bosibl cynyddu hawliau mynediad ymhellach. Barn Llywodraeth Cymru yw y dylai'r amcan cyffredinol gynnwys creu fframwaith sy'n caniatáu defnydd synhwyrol a chyfrifol o dir a dŵr ar gyfer gweithgareddau hamdden difodur. Dylai hefyd gynnwys dulliau diogelu addas at y diben ar gyfer rheoli tir, gweithgareddau eraill a bywyd gwyllt. Dylai'r fframwaith hwn fod yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion arweiniol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig dull sy'n gwneud y canlynol:

1. Annog rhagor o ymwneud â'r awyr agored a natur a gwneud y lleoedd lle mae pobl yn byw yn fwy deniadol a dymunol – trwy sicrhau bod mynediad rhwydd a fforddiadwy i fannau gwyrdd lleol o safon a gweithgareddau hamdden awyr agored yn agos at le mae pobl yn byw, gan wella cydlyniant cymunedol a mynd i'r afael â rhai o symptomau tlodi.

2. Gwella'r gwaith o hyrwyddo a gwneud defnydd gwell o'r cyfleoedd a'r seilwaith sydd eisoes ar gael i'r cyhoedd gael mynediad i'r awyr agored.

3. Gwella'r cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol – trwy greu fframwaith newydd ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol ar sail ddiogel a chlir, tra'n darparu dulliau diogelu priodol yn erbyn defnyddio mynediad yn anghyfrifol.

4. Cynyddu hyblygrwydd yn y system i ganiatáu amrywiaeth ehangach o weithgareddau – trwy gyflwyno mecanweithiau newydd sy'n moderneiddio'r rhwydwaith presennol a chaniatáu'r gwaith o reoli gweithgareddau hamdden difodur amryfal yn gadarnhaol.

5. Symleiddio a chysoni cyfundrefnau – trwy gydlynu rheoliadau sy'n llywodraethu hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad, a dileu rhai o'r anghysondebau a'r biwrocratiaethau presennol.

6. Darparu dulliau diogelu ar gyfer gweithgareddau rheoli tir a dŵr o ddydd i ddydd, yn enwedig o ran cadarnhau cyfrifoldebau, a chaniatáu'r gwaith o

warchod yr amgylchedd naturiol, bywyd gwyllt a nodweddion o arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol.

7. Darparu dulliau diogelu ar gyfer gweithgareddau masnachol presennol a darparu cyfleoedd am rai newydd.

8. Meithrin dealltwriaeth a chymorth cyffredin ar gyfer cyfleoedd mynediad rhesymol a chyfrifol.

Dylai'r egwyddorion hyn ddarparu ffon fesur i'w defnyddio i fesur y dull presennol a'r cynigion i ddiwygio.

**Cwestiwn 1: Beth yw eich barn ar yr egwyddorion a amlinellwyd uchod? Os byddech yn awgrymu eu newid, eglurwch sut a pham.**

## 3. Manteision hamdden awyr agored

Mae cydnabyddiaeth eang i fuddion hamdden awyr agored.

Mae hamdden awyr agored yn cyfrannu'n sylweddol at **iechyd** meddyliol a chorfforol y boblogaeth yng Nghymru, ac mae bron traean o'r bobl yn bodloni'r lefelau gweithgarwch corfforol gofynnol trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored[1]. Mae corff sylweddol o dystiolaeth sy'n dangos bod canlyniadau manteisiol i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol o ran cynyddu hyd oes a lleihau nifer yr achosion o glefydau cronig, gan gynnwys clefydau cardiofasgwlaidd, rhai mathau o ganser, diabetes math II ac osteoporosis. Amcangyfrifwyd bod cost anweithgarwch corfforol i Gymru tua £650 miliwn y flwyddyn.[2]

Mae cynyddu cyfleoedd i gael mynediad i'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden, boed ar gyfer cerdded, beicio neu unrhyw weithgareddau hamdden cyfrifol arall, yn rhan annatod o gymhelliant Llywodraeth Cymru i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ym mhoblogaeth Cymru.

Er bod gweithgarwch corfforol yn gwneud cyfraniad amlwg sydd wedi'i gofnodi'n helaeth at fyw'n iach, mae hefyd yn werth nodi bod tystiolaeth ar gael i ddangos y gall treulio amser yn yr amgylchedd naturiol neu fannau gwyrdd wella lles meddyliol

[1] Hamdden Awyr Agored ac Iechyd yng Nghymru – Adroddiad Cryno gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (Chwefror 2012)
[2] *Dringo'n uwch: creu Cymru egnïol* gan Lywodraeth Cymru 2009

yn sylweddol. Mae 1 o bob 4 oedolyn yng Nghymru yn profi problemau iechyd meddwl neu salwch ar ryw adeg yn ystod eu hoes[3]. Yn seiliedig ar ffigurau 2007-08, y rhagamcan o gost flynyddol salwch meddwl yng Nghymru yw £7.2 biliwn.[4] Gall cyswllt gweithredol goddefol neu lai egnïol â mannau gwyrdd fod yn adferol yn seicolegol ac yn ffisiolegol, gan leihau pwysedd gwaed a lefelau straen.[5]

Bellach, mae tystiolaeth glir o fuddion **cymdeithasol** cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored o ran ansawdd bywyd. Ar gyfer unigolion mae hyn yn cynnwys cael hwyl, datblygu rhwydweithiau cymdeithasol, caffael gwybodaeth a sgiliau a meithrin ymdeimlad o gyflawni. Mae cymunedau hefyd ar eu hennill wrth i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau cyffredin, a chaiff rhai unigolion eu dargyfeirio o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Drwy gael mannau gwyrdd ar gyfer gweithgareddau hamdden mae modd helpu i feithrin ymdeimlad o berchenogaeth gymunedol, ymdeimlad o falchder a brwdfrydedd dros le mae pobl yn byw, boed mewn cymuned drefol neu wledig.

Ffyniant **economaidd** a llesiant gwell yw'r mwyaf arwyddocaol o blith llu o fuddion y gall mwynhau'r awyr agored eu darparu i unigolion, cymunedau a'r gymdeithas.

Dangosodd Arolwg Ymwelwyr Cymru 2013, o'r ymwelwyr hynny â Chymru a ymatebodd i'r arolwg, un ai o'r DU neu o dramor, fod 30% wedi'u hysgogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yn ystod eu taith.[6]

Mae cerdded fel gweithgaredd yn cynhyrchu £562 miliwn o alw ychwanegol yn economi Cymru, £275 miliwn o Werth Ychwanegol Gros, a tua 11,980 o oriau gwaith ar gyfer unigolyn[7]. Amlygir hyn gan Lwybr Arfordir Cymru, sydd ynddo'i hun yn cynhyrchu tua £32.2 miliwn o alw ychwanegol yn economi Cymru, £16.1 miliwn o Werth Ychwanegol Gros a 730 o oriau gwaith ar gyfer unigolyn[8]. Mae ein profiad o Lwybr Arfordir Cymru wedi dangos sut mae gweithio mewn partneriaeth i ddarparu cyfleoedd hamdden o safon dda a marchnata effeithiol yn gallu codi proffil Cymru o gwmpas y byd, gan ddenu ymwelwyr o ganlyniad i hynny.

---

[3] Law yn Llaw at Iechyd Meddwl – Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru (Hydref 2012)

[4] Law yn Llaw at Iechyd Meddwl – Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru (Hydref 2012)

[5] *Preference for Nature in Urbanized Societies* gan Van den Berg et al, a ddyfynnir yn *Benefits of Green Infrastructure* gan Forest Research Hydref 2010

[6] Arolwg Ymwelwyr Cymru 2013 Llywodraeth Cymru 2013

[7] The economic impact of walking and hill walking in Wales, Ysgol Fusnes Caerdydd 2011

[8] Ysgol Fusnes Caerdydd (2012), The Economic Impact of Wales Coast Path Visitor Spending on Wales

Gwnaeth tua 2.8 miliwn o bobl yn y DU gymryd rhan mewn rhyw fath o weithgareddau ar gychod yn ystod 2012, ac o'r nifer hwn, aeth 1.2 miliwn i ganŵio[9].

Yn ogystal, mae manteision economaidd sylweddol i gael rhagor o fynediad i fannau gwyrdd. Mae bod yn agos at fannau gwyrdd o safon uchel, megis parciau, yn cynyddu gwerthoedd eiddo 2.6%-11.3%[10]; ac mae pob £1 o wariant cyhoeddus ar brosiectau mannau gwyrdd yn ysgogi £4.20 o fuddsoddiad gan y sector preifat, gan roi hwb i adfywio[11].

Y manteision i'r **amgylchedd** o ran annog mynediad cyfrifol i'r awyr agored yw bod pobl, yn enwedig y rheini heb gyswllt o ddydd i ddydd â natur, yn dysgu i werthfawrogi'r amgylchedd naturiol a'r angen i'w amddiffyn. Mae'r mwyafrif o boblogaeth Cymru yn byw mewn ardaloedd trefol, ac mae'n bwysig eu bod yn cael cyfleoedd trwy hamdden awyr agored i ddysgu am ein treftadaeth ddiwylliannol a naturiol a'i phrofi; a gwerthfawrogi a deall natur ffermio, coedwigaeth, pysgota a defnyddiau gwledig tir a dŵr eraill.

## 4. Y sefyllfa bresennol: cynnydd a heriau

### Deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol

Mae nifer mawr o statudau wedi'u cynnwys yn y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer mynediad a hawliau tramwy. Nodir rhai o'r rhai mwyaf arwyddocaol isod, er nad yw hon yn rhestr lawn.

**Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949** oedd y ddeddfwriaeth arwyddocaol gyntaf i sefydlu hawliau ar gyfer ymweld â chefn gwlad. Roedd Deddf 1949 yn cydnabod yr angen am ddull adeiladol o ddelio â materion mynediad a chadwraeth.

O dan Ddeddf 1949, rhoddwyd i gynghorau sir y dasg o arolygu'u hardaloedd a chofnodi a mapio hawliau mynediad cyhoeddus. Yn ôl yr angen, roedd awdurdodau sirol yn gallu sicrhau mynediad cyhoeddus i ardaloedd o gefn gwlad agored yn eu ffiniau.

---

[9] Watersports Participation Survey 2012

[10] Forest Research (2012), Economic benefits of greenspace A critical assessment of evidence of net economic benefits

[11] Forest Research (2012), Economic benefits of greenspace A critical assessment of evidence of net economic benefits

Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau sy'n ymwneud â hawliau tramwy wedi'u diddymu ond mae llawer o'r rheini sy'n ymwneud â mynediad i gefn gwlad agored a gwarchodfeydd natur yn parhau'n gyfredol.

Mae **Deddf Cefn Gwlad 1968** yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chamfeydd, gatiau ac arwyddion ar hawliau tramwy cyhoeddus, gan gynnwys gosod arwyddion ar gyfer llwybrau troed a llwybrau ceffylau, a beicio ar lwybrau ceffylau. Gwnaeth Deddf 1968 hefyd gyflwyno'r pŵer i awdurdodau lleol ddynodi parciau gwledig.

Mae **Deddf Priffyrdd 1980** yn cynnwys y prif bwerau a'r prosesau ar gyfer creu, gwyro a diddymu hawliau tramwy. Mae hefyd yn nodi dyletswydd awdurdodau lleol i gynnal a chadw llwybrau cyhoeddus.

Mae **Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981** yn cynnwys dyletswydd i adolygu'r map a'r datganiad diffiniol yn barhaus, ac mae'n darparu'r mecanweithiau cysylltiedig ar gyfer diweddaru'r cofnodion hyn.

Mae **Deddf Llwybrau Beiciau 1984** yn rhoi pwerau i awdurdodau priffyrdd droi llwybrau cerdded yn llwybrau beicio, un ai ar gyfer beicio yn unig, neu ar gyfer beicio a cherdded.

Gwnaeth **Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000** greu mynediad ar droed i gefn gwlad agored, sy'n cael ei ddiffinio fel mynyddoedd, rhostir, gweundir a bryniau. Mae tir mynediad yng Nghymru yn ymestyn i tua 460,000 hectar o gefn gwlad (gan gynnwys 100,000 hectar o goedwigoedd Llywodraeth Cymru). Mae'r Ddeddf hon yn rhoi dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i baratoi, ymgynghori a chyhoeddi mapiau o'r holl dir comin cofrestredig a chefn gwlad agored; pŵer i awdurdodau mynediad (awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol) sicrhau mynediad i dir mynediad y Ddeddf; mae'n gwneud darpariaethau amrywiol mewn perthynas â hawliau tramwy cyhoeddus, gan gynnwys dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy a gweithdrefnau newydd sy'n ymwneud â diddymu rhwystrau; a darpariaethau ar gyfer creu fforymau mynediad lleol.

Yn fwyaf diweddar, mae **Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013** yn ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol fapio a chynllunio llwybrau addas ar gyfer teithio llesol, ac i ddatblygu a gwella'u seilwaith ar gyfer cerdded a beicio bob blwyddyn.

Mae pob un o'r rhain yn creu neu'n diffinio cyfrifoldebau statudol ar gyfer Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru, ac mae'n tynnu ar yr Arolygiaeth Gynllunio i ddelio â gwrthwynebiadau. Mae hefyd yn ffurfio'r statudau uchod bod disgwyl i'r cyhoedd ddeall i le y gallant fynd a'r hyn y gallant ei wneud. Mae disgwyl hefyd i berchenogion eiddo ddeall eu rhwymedigaethau.

Mae nifer o gylchlythyrau a chanllawiau perthnasol megis WO 5/93 ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (2009). Yn ogystal, mae cylchlythyrau ar rai materion technegol penodol megis diddymiadau arbennig a chroesfannau rheilffordd. Mae angen diweddaru'r rhan fwyaf o'r canllawiau ffurfiol a statudol sy'n gysylltiedig â mynediad a hawliau tramwy cyhoeddus.

## 4.2 Cynnydd

Ers datganoli, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud, yn benodol ar gwmpas yr adnoddau sydd ar gael i'w defnyddio ar gyfer mathau amrywiol o hamdden awyr agored.

Ers 2005 mae'r tir sy'n hygyrch trwy hawl i'r cyhoedd wedi treblu trwy weithredu'r hawl mynediad statudol ar droed i tua 360,000 hectar o dir agored a thir comin cofrestredig, ynghyd â 100,000 hectar arall o Ystâd Goed Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei rheoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Yn 2002, cynyddwyd rhwydwaith y Llwybr Cenedlaethol trwy agor Llwybr Cenedlaethol Llwybr Glyndŵr; gan ychwanegu 135 milltir o lwybr o'r safon uchaf at 363 o filltiroedd presennol Llwybr Arfordir Sir Benfro a Llwybr Clawdd Offa.

Mae'r rhwydwaith llwybrau cyhoeddus ehangach hefyd wedi'i wella gyda thua 4,700 milltir ychwanegol o hawliau tramwy cyhoeddus sy'n 'hawdd eu defnyddio' ers i'r gwaith ddechrau yn 2008 ar weithredu'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.

Cyflawnwyd ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gwblhau Llwybr Arfordir Cymru yn 2012 ar amser ac o fewn y gyllideb. Denodd agoriad y Llwybr sylw'r wasg ar lwyfan byd-eang. Mae gwaith ymchwil yn amcangyfrif bod gwariant ymwelwyr sydd i'w briodoli i Lwybr Arfordir Cymru sy'n 870 milltir o hyd yn hafal i tua £16 miliwn o werth ychwanegol gros i economi Cymru bob blwyddyn.

Bu hefyd welliannau i'r cyfleoedd ar gyfer beicio, ar y ffordd ac oddi ar y ffordd. Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau priffyrdd i ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr, ac i wneud darpariaethau gwell ar eu cyfer. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol hyrwyddo cerdded a beicio fel dull teithio. Nod y Ddeddf yw annog pobl i ddibynnu llai ar eu ceir wrth wneud teithiau byr yn ôl ac ymlaen i weithle neu sefydliad addysgol, neu er mwyn cael mynediad i wasanaethau neu gyfleusterau iechyd, hamdden neu eraill. Bydd cysylltu mannau gwyrdd â rhwydweithiau teithio gweithredol yn effeithio'n sylweddol ac yn gadarnhaol ar yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig; iechyd a lles pobl; ac ar allu pobl i fforddio cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden.

Mae tua 1,200 milltir o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yng Nghymru eisoes yn darparu ar gyfer tua 28 miliwn o deithiau cerdded a beicio bob blwyddyn; ac yn 2012, cofnodwyd cyfanswm o dros 286,000 o deithiau beicio ar hyd llwybrau Cyfoeth Naturiol Cymru a adeiladwyd yn bwrpasol, gan gynnwys Coed y Brenin. Mae buddsoddiad partneriaeth yng nghanolfannau rhagoriaeth Beicio Mynydd Cymru yn sicrhau bod Cymru'n parhau i gael ei chydnabod fel un o'r cyrchfannau beicio mynydd mwyaf blaenllaw yn y byd, lle mae tua 370 milltir o lwybrau. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu dros 4 miliwn o ymweliadau bob blwyddyn i ystâd goed Llywodraeth Cymru, gan ddarparu llwybrau cerdded, llwybrau beicio, digwyddiadau a gweithgareddau o safon uchel.

Yn ogystal, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Bil yr Amgylchedd (Cymru) a'r Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 wedi'u cysylltu'n agos â'r rhaglen diwygio a symleiddio ehangach er mwyn darparu manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol i Gymru. Bydd gwelliannau i'r gweithdrefnau a'r dewisiadau sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored yn ategu hyn, a bydd yn helpu i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd, a'i fwynhad o'n hamgylchedd naturiol.

## 4.3 Newidiadau i gyfranogiad

Er bod hawliau mynediad wedi cynyddu dros y degawd diwethaf, mae Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru) yn awgrymu bod y gyfran o drigolion Cymru sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored yn aml wedi parhau'n weddol sefydlog, sef tua 27%.Mae tua 60% o bobl sy'n byw yng Nghymru yn nodi y byddent yn hoffi ymweld â'r awyr agored yn fwy aml, a dywedwyd mai un o'r rhwystrau oedd 'diffyg mannau addas i fynd iddynt'.

Yn ogystal, mae'r ffyrdd y mae pobl yn defnyddio cefn gwlad yn newid ac mae patrymau ymddygiad hamdden yn nodi bod pobl yn cymryd rhan fwyfwy mewn mwy nag un gweithgaredd. Pan gaiff hyn ei gyfuno â ffafriaeth dros gyfleoedd bach cyfleus ar garreg y drws, mae'n awgrymu bod angen cyfleoedd lleol gwell arnom sy'n caniatáu amrywiaeth eang o weithgareddau. Gall hyn fod yn anodd ei gyflawni trwy'r trefniadau mynediad presennol.

## 4.4 Heriau

Mae'n amlwg bod y fframwaith deddfwriaethol presennol yng Nghymru yn codi nifer o heriau i dirfeddianwyr, defnyddwyr a'r cyrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am ei roi ar waith. Amlygir rhai o'r heriau allweddol a nodwyd isod.

<u>Anghenion hamdden awyr agored modern</u>

Nid yw'r 'rhwydwaith' presennol o hawliau tramwy cyhoeddus wedi newid yn sylweddol ers y 1950au, ac mae'n seiliedig yn bennaf ar ddefnydd blaenorol hanesyddol o lwybrau. Cofnodwyd y llwybrau sy'n cael eu hystyried heddiw yn sail i rwydwaith ar gyfer anghenion hamdden yn bennaf gan y gallant fod wedi cysylltu eiddo a nodweddion gwledig anghysbell, megis eglwys neu ffynnon, neu oherwydd y cawsant eu defnyddio i ddosbarthu'r post neu nwyddau eraill. O ganlyniad, mae'r map swyddogol yn cynnwys llwybrau sy'n dod i ben heb fynediad i lwybrau eraill neu ffordd fetlin, neu sy'n croesi'n syth trwy fuarthau fferm. Gall llwybrau o'r fath fod yn broblem i ddefnyddwyr a thirfeddianwyr.

Mae'r system bresennol yn deddfu ar gyfer llwybrau unigol yn hytrach na rhwydweithiau, ac mae'n golygu nad yw llwybrau'n cysylltu, a bod bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer marchogaeth neu feicio er enghraifft. Er mwyn cyflawni manteision cymdeithasol ac economaidd gweithgareddau hamdden awyr agored, mae angen i'r ddeddfwriaeth sy'n eu galluogi ddatblygu er mwyn ystyried newidiadau i ddewisiadau am gyfranogiad.

Ystyrir hefyd fod darpariaethau presennol yn anhyblyg, neu eu bod yn rhoi cost rhy uchel ar wneud newidiadau i hawliau tramwy. Gall hyn effeithio ar y gwaith o ddatblygu rhwydweithiau a llwybrau sydd o werth hamdden uchel posibl trwy ei gwneud yn anodd i awdurdodau lleol sicrhau mynediad cyhoeddus am byth. Gall hefyd greu anawsterau i awdurdodau lleol a thirfeddianwyr lle y gallai fel arall fod yn ymarferol i ddargyfeirio hawl tramwy i ffwrdd o fuarthau fferm prysur, neu fannau eraill llai dymunol.

Darpariaethau presennol - gall cynnwys categorïau hawliau gwahanol ar gyfer llwybrau o statws gwahanol, y mae'n bosibl nad ydynt hyd yn oed yn adlewyrchu'r amodau ar y ddaear - achosi dryswch, ac maent yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarpariaethau i gerddwyr, sy'n cyfyngu ar y capasiti ar gyfer ymarfer corff iach a manteision economaidd twristiaeth gweithgareddau. Nid yw deddfwriaeth ddiweddar, sef Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, wedi mynd i'r afael â'r angen am amrywiaeth ehangach o weithgareddau awyr agored, ac mae wedi methu mynd i'r afael â mynediad i rai ardaloedd pwysig, gan gynnwys rhannau o'r arfordir, cefn gwlad ar ymylon ardaloedd trefol, a dŵr.

Mae'n ymddangos yn anymarferol ceisio mynd i'r afael ag anghenion gweithgareddau awyr agored heddiw trwy ddefnyddio system trigain oed o lwybrau sy'n cael ei rheoleiddio gan weithdrefnau beichus a drud.

<u>Costau - amser ac adnoddau</u>

Mae'n ddrud iawn gweinyddu'r system bresennol, oherwydd y dyletswyddau neu'r gweithdrefnau cymhleth ac anghymesur a roddwyd ar Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol, tirfeddianwyr a defnyddwyr.

Awdurdodau lleol sydd yn bennaf cyfrifol am hawliau tramwy cyhoeddus. Maent yn ddarostyngedig i ddyletswyddau statudol i'w cynnal a'u cadw, ac i sicrhau bod digon o arwyddion, ac nad oes rhwystr. Maent hefyd yn gyfrifol am gadw a diweddaru'r map a'r datganiad diffiniol. Mae angen gorchmynion addasu mapiau diffiniol er mwyn gwneud newidiadau i'r cofnodion cyfreithiol hyn o ganlyniad i greu, dargyfeirio neu ddiddymu llwybrau, neu gywiro gwall gweinyddol presennol ar y cofnod. Yr Arolygiaeth Gynllunio sy'n delio â gwrthwynebiadau o ran gwneud gorchmynion o'r fath gan awdurdodau lleol ar ran Gweinidogion Cymru.

Cwyn allweddol gan dimau hawliau tramwy awdurdodau lleol yw'r gost o hysbysebu gorchmynion a newidiadau i'w rhwydwaith hawliau tramwy. Mae'r gofynion presennol i hysbysebu mewn cyhoeddiadau penodol yn golygu bod yn rhaid iddynt wario tua £600 ar hysbysebu yn unig pan fyddant yn bwriadu newid llwybr. Mae'r costau eraill yn cynnwys costau cyfreithiol a gweinyddol. Ar y cyfan, mae'r gost weinyddol o ddargyfeirio neu ddiddymu llwybr rhwng £1500 a £3000 hyd yn oed heb unrhyw wrthwynebiadau. Gall y gost hon godi os yw'r achos yn fwy cymhleth neu os oes gwrthwynebiadau. Mae modd trosglwyddo'r rhan fwyaf o'r costau hyn ymlaen i'r ymgeisydd yn achos gorchmynion llwybrau cyhoeddus, sy'n achosi i'r broses o ymgeisio am orchymyn o'r fath (hyd yn oed pan fydd y llwybr amgen yn mynd ar hyd yr un eiddo) fod yn fater costus iawn.

Mae gan lawer o awdurdodau lleol ôl-groniad o achosion sy'n ymwneud ag alinio'u rhwydweithiau, gan gynnwys creu a dargyfeirio gorchmynion o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 a Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol. Yn aml, gwelir bod tystiolaeth annigonol wedi'i chyflwyno gyda chais neu wedi'i darparu i gefnogi newid yn y map a'r datganiad diffiniol. Mae rhai achosion yn parhau heb eu datrys am ddegawdau. Yn aml mewn achosion o'r fath, mae'r ymgeisydd un ai wedi symud ymlaen, wedi colli diddordeb neu hyn yn oed wedi marw, ac nid oes yr un ffordd ar hyn o bryd o drosglwyddo perchenogaeth y ceisiadau hyn.

Yr her allweddol yw a oes modd taro cydbwysedd mwy rhesymol rhwng lleihau'r baich gweinyddol a diogelu'r hawliau cyhoeddus sy'n hanfodol o ran y llwybrau hyn.

## Anawsterau ymarferol

Mae llawer o anawsterau ymarferol gwirioneddol a chanfyddedig wrth ganiatáu mynediad cynyddol i dir a dŵr o dan y ddeddfwriaeth gyfredol, neu leihau mynediad mewn ardaloedd lle nad oes galw ond lle mae baich rheoli yn bodoli. Mae'r rhain yn cynnwys y gwrthdaro posibl neu wirioneddol â gwaith rheoli tir a da byw, cadwraeth natur, a hyd yn oed rhwng gweithgareddau awyr agored gwahanol.

Mae llawer o lwybrau, er enghraifft, sy'n mynd yn uniongyrchol trwy fuarthau fferm. Caiff hyn ei godi yn aml fel mater diogelwch gan ffermwyr, ac fel rhywbeth sy'n amharu ar fwynhad gweithgaredd gan ddefnyddwyr sydd ofn cŵn rhydd, da byw, neu sy'n bryderus y byddant hwy eu hunain o dan draed neu'n niwsans i ffermwyr. Mae'r gost o symud y llwybrau hyn a'r profion sy'n cael eu gosod gan y ddeddfwriaeth yn rhwystro llawer o ffermwyr rhag eu dargyfeirio, gan felly adael llwybrau sy'n anghyfleus i'r perchenogion ac sy'n lletchwith i'r defnyddwyr.[12]

Mae atebolrwydd hefyd yn bryder i lawer o dirfeddianwyr, yn enwedig lle y gallant ddymuno cadw da byw mewn caeau lle ceir mynediad cyhoeddus. Mae eisoes ddarpariaethau sy'n gwahardd bridiau penodol o deirw rhag cael eu cadw mewn caeau lle mae hawliau tramwy, ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr asesu'r risgiau iechyd a diogelwch ar eu tir.[13] Ar y cyfan, mae ffermwyr yn ymwybodol iawn o'r peryglon a berir gan eu hanifeiliaid, ond eto mae ymosodiadau gan wartheg ac anifeiliaid eraill yn digwydd. Gall anawsterau godi os bydd cerddwr, neu ddefnyddiwr arall, yn methu cau giât gan ganiatáu i anifeiliaid ddianc, neu'n cau giât pan na ddylai fod wedi'i gau, gan rwystro da byw rhag cyrraedd cyflenwadau dŵr. Mae cŵn afreolus ger da byw, yn enwedig defaid sy'n wyna, hefyd yn bryder mawr i ffermwyr. Er hyn, mae tystiolaeth a gasglwyd gan y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol yn awgrymu bod y rhan fwyaf o ymosodiadau gan gŵn ar ddefaid yn digwydd lle nad oes mynediad cyhoeddus. [14]

Gall defnyddio'r awyr agored mewn ffyrdd croes hefyd greu anawsterau sylweddol. Mynediad i ddŵr mewndirol yw'r enghraifft fwyaf heriol o hyn. Mae pysgotwyr a physgotwyr rhwydi'n dadlau bod canŵ-wyr a nofwyr gwyllt yn amharu ar bysgod, ac y gallant ddinistrio tiroedd silio. Maent hefyd yn dweud y gall canŵ-wyr greu problemau o ran rheoli afonydd trwy ddifrodi glannau'r afon. Mae canŵ-wyr yn dadlau bod pysgotwyr a physgotwyr rhwydi'n cadw adnodd arwyddocaol i'w hunain, a'u bod yn rhwystro eraill rhag defnyddio a mwynhau'r dyfroedd. Dim ond tystiolaeth anecdotaidd sydd i gefnogi'r rhan fwyaf o'r honiadau hyn. Mae'r ddwy ochr yn dadlau bod y gyfraith gyffredin o'u plaid nhw.

**Cwestiwn 2: Dywedwch wrthym eich barn ar y materion a nodwyd uchod, ac a oes heriau allweddol eraill y credwch fod angen eu datrys?**

[12] Mae'r profion hyn yn cynnwys ystyried cyfleustra, mwynhad a mannau terfyn llwybrau presennol ac arfaethedig.

[13] Adran 59 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, ac Adran 3 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, yn y drefn honno.

[14] Canlyniadau'r arolwg ynghylch tarfu ar ddefaid, Y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol, http://www.nationalsheep.org.uk/advice-for-farmers-detail.php?AdviceID=8.

# 5. Archwilio'r cyfleoedd i newid

Er mwyn helpu i lywio'r gwaith o gasglu tystiolaeth a barn ar i ba raddau y mae angen diwygio'r fframwaith deddfwriaethol cyfredol, amlinellir graddau amrywiol y newid isod. Mae'r cynigion hyn yn adlewyrchu'r drafodaeth eang yn ystod camau cyntaf yr adolygiad. Nid ydynt yn benodol, a dylid eu hystyried fel enghraifft o'r mathau o newidiadau y gellir eu rhoi ar waith.

## 5.1 Mynediad i dir

A) Gweithdrefnau Diwygio

Diben y cynigion hyn yw gwneud gwelliannau i'r broses o weinyddu'r ddeddfwriaeth mynediad gyfredol.

Gellir gwneud addasiadau a fyddai'n canolbwyntio ar symleiddio a chysoni rhannau o'r ddeddfwriaeth gyfredol er mwyn dileu gweithdrefnau beichus a drud, gan gynnwys y broses o gofnodi hawliau tramwy cyhoeddus, y gwaith o gynnal a chadw llwybrau a chreu, dargyfeirio a diddymu llwybrau. Gwneir newidiadau o'r fath yn bennaf i agweddau technegol ar gyfraith hawliau tramwy, ac amlinellir rhai ohonynt isod. Nid yw hon yn rhestr lawn. Blas ydyw, yn hytrach, o'r hyn a allai gael ei wella/newid.

**Symleiddio'r broses o gofnodi hawliau tramwy cyhoeddus.** Hoffem i chi ystyried syniadau a all fod gennych o ran addasu'r ddeddfwriaeth gyfredol a allai leihau'r gost a'r amser sy'n cael ei dreulio yn gwneud newidiadau i'r map a'r datganiad diffiniol. Er enghraifft:

> A fyddai'n werth ei gwneud yn ofynnol i ddigido mapiau a datganiadau diffiniol, a chaniatáu i geisiadau am orchmynion addasu mapiau diffiniol a cheisiadau eraill sy'n ymwneud â hawliau tramwy gael eu gwneud yn electronig? Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi digido eu mapiau, ond mae'r rhain yn ddogfennau gweithio, ac nid oes modd eu hystyried fel eu mapiau diffiniol. Os yw aelod o'r cyhoedd yn dymuno gweld y map, mae'n rhaid iddo wneud cais o hyd i weld y copi papur sy'n cael ei gadw fel arfer yn un o swyddfeydd y cyngor.
>
> Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ymgeiswyr am orchmynion addasu mapiau diffiniol gyflwyno hysbysiad am yr holl dirfeddianwyr a meddianwyr perthnasol cyn y gall yr awdurdod lleol ystyried y cais. A ddylai hyn barhau, neu a ddylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud hyn pan fyddant yn fodlon bod y dystiolaeth a ddarparwyd yn bodloni prawf tystiolaeth sylfaenol safonol?
>
> Ystyriwch y ffordd yr ymdrinnir â gwrthwynebiadau i orchmynion gan awdurdodau lleol, a goblygiadau gwrthwynebiadau llwyddiannus i'r gorchymyn. A ddylid cyflwyno pob achos yn awtomatig i'w ystyried gan Weinidogion Cymru, neu a oes

mathau penodol o wrthwynebiadau y dylid delio â nhw trwy ystyriaethau pellach gan yr awdurdod lleol?

**Symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer creu, dargyfeirio neu gau hawliau tramwy.** Hoffem i chi ystyried a ddylid diwygio'r ddeddfwriaeth gyfredol i wella'r gweithdrefnau hyn, a beth y gellid ei wneud i leihau'r gost a'r amser sy'n cael ei dreulio'n gwneud newidiadau i'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus. Mae'r awgrymiadau'n cynnwys diwygio Deddf Priffyrdd 1980 i ganiatáu awdurdodau lleol i gyflwyno hawliau tramwy newydd ar eu tir eu hunain; a chaniatáu un gorchymyn digwyddiad sengl ar gyfer dargyfeirio llwybr yn hytrach na dau fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd - un ar gyfer creu'r llwybr newydd ac un ar gyfer diddymu'r hen lwybr. Hoffem i chi hefyd ystyried a oes angen gwneud newidiadau i'r darpariaethau iawndal o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 sy'n ymwneud â chreu neu ddargyfeirio llwybrau.

**Cwestiwn 3: Pa newidiadau, os o gwbl, y credwch fod angen eu gwneud i wella a symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi, creu, dargyfeirio neu gau hawliau tramwy cyhoeddus?**

**Gwella'r darpariaethau sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer gwneud gwelliannau ar lawr gwlad.** Hoffem i chi ystyried sut y gellid egluro a chadarnhau'r darpariaethau sy'n ymwneud â rhwystrau gan eu bod wedi'u cynnwys ar hyn o bryd mewn sawl rhan amrywiol o statud ac maent yn galw am weithdrefnau gorfodi gwahanol; gwelliannau i ddarpariaethau sy'n ymwneud â mesurau rheoli stoc (camfeydd a gatiau ac ati), megis sut y cânt eu cofnodi a'r mathau o ddodrefn sy'n briodol i ddefnyddwyr heddiw; a dileu'r gwaharddiad ar gynnal rasys beicio ar lwybrau ceffylau, gan gysoni â'r rheolau sy'n llywodraethu llwybrau troed, lle caniateir rasys trwy ganiatâd Gweinidogion Cymru.

Efallai y byddwch yn dymuno ystyried a ddylid diwygio’r dyletswyddau a roddir ar awdurdodau lleol mewn perthynas â chynnal a chadw hawliau tramwy a dileu rhwystrau o lwybrau.

Hoffem gael eich barn ar ba welliannau y gellid eu gwneud i'r ddeddfwriaeth ar hawliau tramwy cyhoeddus, ac a ydych wedi nodi unrhyw anghysondebau y dylid eu dileu.

**Cwestiwn 4: Pa newidiadau, os o gwbl, y credwch fod angen eu gwneud i wella a symleiddio'r darpariaethau sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer gwneud gwelliannau ar lawr gwlad?**

**Cwestiwn 5: Pa newidiadau anneddfwriaethol yr hoffech eu gweld yn y cyfamser, y credwch y byddent yn helpu i wella'r rhwydwaith hawliau tramwy yng Nghymru a lleihau'r baich ar awdurdodau lleol?**

**Diwygio diben a chyfansoddiad fforymau mynediad lleol.** Ar hyn o bryd, mae gan Gymru 23 o fforymau mynediad lleol i gynghori awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored a mwynhad. Sefydlwyd y fforymau hyn o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, ac roeddent yn ddylanwadol wrth roi darpariaethau'r Ddeddf honno ar waith.

Mae gan y fforymau mynediad lleol ffocws lleol iawn, ac maent yn darparu rôl ymgynghorol i'w hawdurdodau sy'n penodi. Penodir aelodau am gyfnod o dair blynedd a gallant fod yn aelodau o fwy nag un fforwm mynediad lleol. Penodir aelodau oherwydd bod ganddynt wybodaeth a/neu brofiad mewn meysydd sy'n berthnasol i ddibenion y fforymau mynediad lleol. Ni chânt eu dewis fel cynrychiolwyr sefydliadau na grwpiau buddiant. Golyga hyn nad oes modd anfon dirprwy yn lle aelod na all fod yn bresennol.

Mae'r heriau a wynebir gan yr awdurdodau sy'n penodi (awdurdodau lleol neu awdurdodau parciau cenedlaethol) yn cynnwys recriwtio unigolion a chanddynt yr wybodaeth i ymdrin â'r amrywiaeth o fuddiannau gofynnol. Y broblem fwyaf yw canfod cynrychiolwyr ar gyfer buddiannau anabledd, ond mae hefyd yn anodd recriwtio ar draws y sbectrwm cymdeithasol gan ystyried oedran, rhyw ac amrywiaeth ddiwylliannol. Bu fforymau mynediad lleol yn ddefnyddiol wrth roi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar waith ac, mewn llawer o feysydd lle mae perthnasoedd effeithiol wedi'u datblygu, maent hefyd wedi bod yn bartneriaid gwerthfawr i'w hawdurdodau sy'n penodi.

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'n bosibl y byddwch am ystyried a oes modd gwella prosesau llywodraethu, gweinyddu a dibenion fforymau mynediad lleol er mwyn rhoi cefnogaeth well i'w hawdurdodau sy'n penodi.

Mae'n bosibl iawn y bydd goblygiadau ar gyfer yr awdurdod sy'n penodi pob fforwm mynediad lleol sy'n codi o argymhellion y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Felly, mae gennym ddiddordeb i glywed sut y dylid taro'r cydbwysedd rhwng gwybodaeth leol a symleiddio'r broses weinyddu.

**Cwestiwn 6: Sut y dylid ailddiffinio nifer, rôl, aelodaeth a diben fforymau mynediad lleol?**

**Cŵn.** Mae adroddiad *Hamdden Awyr Agored ac Iechyd yng Nghymru* (2012) yn nodi bod perchenogi ci yn un o ddau ffactor 'ffordd o fyw' sy'n gwneud y gwahaniaeth cadarnhaol mwyaf arwyddocaol i gyfranogiad pobl mewn gweithgareddau hamdden awyr agored.

Fodd bynnag, mae grwpiau tirfeddianwyr wedi mynegi pryderon ynghylch cŵn yng nghefn gwlad ers nifer o flynyddoedd. Mae'r pryderon yn amrywio o ddiogelu da byw rhag clefydau a phryder; a diogelu perchenogion cŵn lle gall presenoldeb cŵn godi braw ar dda byw, ac ysgogi ymosodiadau.

Caiff ei dderbyn yn gyffredinol bod gan gerddwr yr hawl i fynd â chi ar lwybr tramwy cyhyd â bod y ci yn aros ar y llwybr. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i gŵn sy'n cael eu tywys ar dir amaethyddol, gan gynnwys y rheini ar hawl dramwy gyhoeddus, fod ar dennyn neu dan reolaeth agos, mewn cae lle mae da byw. Fodd bynnag, nid oes eglurhad mewn statud o ran ystyr *dan reolaeth agos*.

Ar dir sy'n dod o dan ddarpariaethau mynediad Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, mae'n ofynnol i gŵn fod ar dennyn byr rhwng 1 Mawrth a 31 Gorffennaf er mwyn peidio â tharfu ar adar sy'n nythu ar y ddaear. Os yw llwybr troed yn croesi tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, mae'r rheolau sy'n llywodraethu hawliau tramwy yn weithredol. Os yw'r cerddwr yn crwydro oddi ar y llwybr troed hwn, fel y mae ganddo'r hawl i'w wneud, yna mae'n rhaid i'r ci fod ar dennyn byr. Gellir cymhlethu'r sefyllfa ymhellach os nad yw'r briffordd gyfreithiol (y llwybr troed) wedi'i diffinio'n glir ar y ddaear.

**Cwestiwn 7: Sut y dylid cysoni'r hawliau a'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud â chŵn yng nghefn gwlad i ddarparu rhagor o sicrwydd dros yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol, mewn ffordd sy'n gwneud y broses o gyfathrebu negeseuon ynghylch sut i ofalu am gŵn a'u trin yn gyfrifol yn fwy syml?**

B) <u>Dileu Cyfyngiadau</u>

Mae'r cynigion hyn yn cynnwys dileu rhai o'r cyfyngiadau ar yr amrywiaeth o weithgareddau sy'n gallu cael eu cynnal ar hawliau tramwy ac ar dir mynediad.

Yn dilyn yr addasiadau a ddyfynnwyd yn **A)** (gweithdrefnau diwygio) uchod, byddai hefyd modd gwneud newidiadau i fynediad presennol ar lwybrau a chefn gwlad agored sy'n caniatáu amrywiaeth ehangach o weithgareddau, o fewn fframwaith priodol i gyfyngu ar weithgareddau at ddibenion diogelwch a rheoli tir. Ni fyddai hyn yn golygu mynediad i unrhyw ddarnau newydd o dir neu ddŵr, ond byddai'n gwella'r cyfleoedd trwy ganiatáu i ardaloedd sydd eisoes yn hygyrch gael eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth ehangach o weithgareddau.

**Adolygu'r cyfyngiadau ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.** Mae Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn rhestru nifer o

gyfyngiadau ar y rheini sy'n arfer eu hawliau mynediad. Trwy gynnal unrhyw un o'r gweithgareddau ar y rhestr, nid oes hawl i fod ar y darn hwnnw o dir.

Mae rhai cyfyngiadau y gellid eu codi er mwyn caniatáu amrywiaeth ehangach o weithgareddau. Er enghraifft, caiff marchogaeth ei rwystro gan y cyfyngiad sy'n atal unrhyw unigolyn rhag bod ar y tir tra ei fod yng nghwmni "*any animal other than a dog*". Rhwystrir gweithgareddau eraill hefyd trwy'r cyfyngiad ar fod yn rhan o *"any organised games, or in camping, hang-gliding or para-gliding*"

**Caniatáu ar gyfer amrywiadau i'r hawliau sydd ynghlwm wrth y llwybrau cyfredol a chymryd hawliau uwch lle y bo'n ymarferol ac yn gynaliadwy o fewn rheswm.** Mae tua 20,505 milltir o hawliau tramwy cyhoeddus yng Nghymru. Llwybrau troed yw'r mwyafrif o'r rhain - tua 79%. Mae nifer bach yn llwybrau ceffylau - tua 15%; ac mae nifer bach iawn - tua 6% - yn gilffyrdd (cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig a chilffyrdd cyfyngedig). Wrth i niferoedd cynyddol o bobl ddymuno cymryd rhan mewn amrywiaeth ehangach o weithgareddau, hoffem i chi ystyried a ddylai fod pwyslais cynyddol ar ddarparu cyfleoedd mynediad i'r rheini sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau lle mae angen hawliau uwch, er enghraifft beicwyr a marchogion.

**Llwybrau beicio.** Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld rhagor o gyfleoedd i feicwyr ac mae wedi llunio Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae'n wir bod nifer o lwybrau wedi'u cofnodi ar hyn o bryd fel llwybrau troed y byddai modd iddynt yn rhwydd fod yn llwybrau i feicwyr hefyd. O dan gyfraith bresennol, byddai modd eu troi'n llwybrau beicio a fyddai'n caniatáu ar gyfer beicwyr a cherddwyr, ond mae'r gweithdrefnau'n feichus a byddai angen dileu'r llwybr o'r map a'r datganiad diffiniol. Oherwydd hyn, nid oes llawer ohonynt yng Nghymru, a bu honiadau nad yw'r rheini sydd yn bodoli yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Y dewis arall yw rhoi hawliau llwybr ceffylau ar waith trwy ddefnyddio gorchymyn creu o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 - er y byddai hyn hefyd yn golygu creu hawliau ar gyfer marchogion, ac efallai na fydd hyn yn briodol ym mhob achos - ger cefnffyrdd prysur neu drwy barciau diwydiannol neu fusnes prysur.

**Cwestiwn 8: Sut y byddai modd newid y ddeddfwriaeth gyfredol i'w gwneud yn haws caniatáu amrywiaeth ehangach o weithgareddau ar lwybrau presennol a newydd?**

**Cerbydau modur.** Mae cerbydau modur oddi ar y ffordd yng nghefn gwlad yn fater sy'n achosi llawer o emosiwn. Yn 2000, ceisiodd y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy egluro'r hawliau sy'n gysylltiedig â'r llwybrau a ystyriwyd yn flaenorol yn ffyrdd a ddefnyddir fel llwybrau cyhoeddus trwy ailddiffinio pob ffordd a ddefnyddir fel llwybrau cyhoeddus yn gilffordd gyfyngedig. Roedd hyn yn helpu i egluro pwy oedd yn gallu defnyddio'r llwybrau yn gyfreithlon. Yn dilyn hyn, ceisiodd Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 egluro ymhellach rychwant yr

hawliau sydd ar gael ar gyfer moduro oddi ar y ffordd. Er y gwnaeth hyn helpu mewn sawl ystyr, gwnaeth hefyd achosi dryswch mawr ynghylch sut a phryd yr oedd yr eithriadau i ddiddymu hawliau cerbydau modur yn berthnasol.

**Cwestiwn 9: Sut y gallai deddfwriaeth daro cydbwysedd gwell rhwng y gofynion amrywiol ar ddefnyddwyr cerbydau modur, tirfeddianwyr a'r amgylchedd naturiol?**

C) Diwygio mynediad

Mae'r cynigion hyn yn ystyried ffyrdd o ganiatáu gweithgareddau hamdden mewn ardaloedd newydd.

Yn dilyn **A)** (gweithdrefnau diwygio) a **B)** (dileu cyfyngiadau) uchod, hoffem i chi ystyried a oes angen gwneud mân newidiadau i'r diffiniad sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer mapio tir â mynediad er mwyn cynnwys ardaloedd sydd hyd yma wedi'u heithrio o dan ddarpariaethau'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Trwy wneud hyn, darperir mynediad gwell, a lleiheir atebolrwydd tirfeddianwyr.

**Ymestyn diffiniad tir mynediad i gynnwys ardaloedd eraill.** Byddai modd ymestyn y darpariaethau mynediad o dan Ran 1 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i ardaloedd eraill sydd ar hyn o bryd wedi'u heithrio o'r diffiniad ar gyfer mapio, megis coetiroedd, llynnoedd a chlogwyni arfordirol.

Mae clogwyni arfordirol yn benodol eisoes yn cael eu defnyddio ar gyfer arforgampau a dringo, er bod rhai tirfeddianwyr yn amharod i roi caniatâd neu i ymrwymo i gytundebau oherwydd eu pryderon ynghylch atebolrwydd pe byddai damwain. Mae darpariaethau yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy eisoes yn caniatáu ar gyfer ymestyn y mapio i gynnwys yr arfordir, a allai ddarparu sicrwydd mynediad i ddefnyddwyr, ac eglurder o ran atebolrwydd i'r tirfeddianwyr hynny.

**Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu'u rhwydwaith o lwybrau ac ardaloedd mynediad, gan gynnwys llwybrau halio, tir mynediad a thir o dan berchenogaeth gyhoeddus gyda'r bwriad o ddiwygio'r rhwydwaith, gan ychwanegu hawliau uwch lle y bo'n briodol, a chysylltu ardaloedd mynediad trwy ddefnyddio "coridorau glas". Caniatáu'r broses o flaenoriaethu'r rhwydweithiau sy'n cael eu defnyddio'n fwy helaeth.** Hoffem gael eich barn ar ba un a ddylai fod yn ofynnol i bob awdurdod lleol ymgymryd ag adolygiad o'r cyfleoedd sydd ar gael yn ei ardal ar gyfer mynediad a hamdden awyr agored ac i gadarnhau rhwydwaith o lwybrau hamdden ac ardaloedd mynediad â blaenoriaeth.

O dan ddarpariaethau presennol, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol lunio cynllun gwella hawliau tramwy i weithredu fel y prif ddull y gall yr awdurdod adnabod, blaenoriaethu a chynllunio gwelliannau i'w rwydwaith hawliau tramwy lleol. Wrth

lunio'u cynlluniau, mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal nifer o asesiadau o'u rhwydweithiau er mwyn sefydlu sut maent yn diwallu anghenion presennol ac arfaethedig defnyddwyr; y cyfleoedd y maent wedi'u darparu ar gyfer ymarfer corff a mwynhad; a pha mor hygyrch ydynt i'r rheini a chanddynt broblemau symudedd, gan gynnwys y rheini sy'n rhannol ddall neu'n ddall.

Cyhoeddwyd y Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy cyntaf yn 2007/8 ac ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu bron £10 miliwn o gyllid ychwanegol i helpu awdurdodau i weithredu'u cynlluniau.

Mae'n ofynnol yn ôl y darpariaethau i adolygu'r Cynlluniau hyn bob deng mlynedd. Bydd yr arolwg cyntaf yn cael ei gynnal erbyn 2017, sy'n golygu y dylai awdurdodau ddechrau ar eu hasesiadau dros y deuddeg mis nesaf. Cafodd yr ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru flaenorol yn 2007 i ddiddymu'r cynlluniau ei wrthdroi yn 2014 ar ôl i gwerth y cynlluniau i awdurdodau lleol gael ei sefydlu.

Byddwn yn gwerthfawrogi eich barn ar ba un a ddylid cadw, diwygio neu ddiddymu'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.

**Cwestiwn 10: Sut y dylai'r angen am gyfleoedd mynediad newydd neu well gael ei adnabod, ei gynllunio a'i ddiwallu?**

D) Hawliau a chyfrifoldebau newydd

Mae'r cynigion hyn yn ystyried setliad mynediad cwbl newydd yng Nghymru sy'n caniatáu llawer mwy o ddefnydd tir ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol.

Y dewis arall o ran addasu deddfwriaeth gyfredol fyddai diwygio'r fframwaith deddfwriaethol presennol, a chyflwyno cyfres gwbl newydd o gyfreithiau a chanllawiau sydd wedi'u hanelu at alluogi ac annog gweithgareddau hamdden cyfrifol yng Nghymru. Ar draws Ewrop, mae gan bob gwlad ffordd wahanol o ymdrin â sut y rhoddir cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored i'r cyhoedd. Mae'r graddau y mae'r ffordd hon wedi'i chodeiddio mewn deddfwriaeth hefyd yn amrywio.

Mae gan Sweden, er enghraifft, hawl mynediad o dan gyfraith gyffredin i gerdded, beicio, sgïo a gwersylla ar yr holl dir a dŵr, a chaiff hyn ei hyrwyddo'n eang gan yr asiantaeth dwristiaeth genedlaethol. Nid yw'r 'hawl' hon yn rhychwantu cwrtil eiddo, gerddi na thir wedi'i drin. Mae hawl mynediad debyg o dan gyfraith gyffredin wedi'i chynnwys mewn deddfwriaeth yn Neddf Hamdden Awyr Agored 1957 Norwy, sy'n rhoi rhagor o sicrwydd i ddefnyddwyr a thirfeddianwyr o'r hawliau a'r cyfrifoldebau a ddaw gyda mynediad. Mae'r hawl hon yn eithrio gweirgloddiau a phorfaoedd a'r holl 'dir sydd wedi'i ffensio', ac eithrio yn ystod adegau penodol o'r flwyddyn pan fydd y tir wedi rhewi neu wedi'i orchuddio ag eira. Mae hyn yn dangos yn fuddiol sut mae

modd o hyd godeiddio egwyddorion cyffredinol o'r fath o blaid mynediad ar gyfer gweithgareddau hamdden â threfniadau diogelu sy'n addas i amgylchiadau lleol.

Mae profiad yr Alban ers i Ddeddf Diwygio Tir (Yr Alban) 2003 gyflwyno hawl mynediad cyfrifol i'r holl dir o ddiddordeb penodol i rai rhanddeiliaid yng Nghymru. Mae rhai eithriadau i hyn megis cwrtil adeiladau a strwythurau eraill, tir o dan gnydau, a thir sy'n cael ei ddefnyddio gan ysgolion. Crëwyd awdurdodau mynediad trwy'r Ddeddf a chanddynt ddyletswydd gadarnhaol i alluogi'r cyhoedd i arfer eu hawl mynediad, creu fforwm mynediad lleol ar gyfer yr ardal a chreu map o'r llwybrau craidd. Rhoddwyd i Scottish Natural Heritage y dasg o greu canllaw cynhwysfawr ar weithgareddau hamdden cyfrifol i ddefnyddwyr yr hawl newydd a thirfeddianwyr, sef Scottish Outdoor Access Code.

Trwy gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon, mae llawer iawn o ddiddordeb wedi'i ennyn ymysg grwpiau o ddefnyddwyr hamdden yng Nghymru, yn enwedig grwpiau sy'n mynegi rhwystredigaeth ynghylch yr hyn sy'n cael ei ystyried yn natur rwystrol rhywfaint o'r ddeddfwriaeth gyfredol, yn fwyaf nodedig ar gyfer canŵio a beicio oddi ar y ffordd. Bu hefyd ymateb ymysg grwpiau o dirfeddianwyr sy'n gwrthwynebu'n gryf camau i gyflwyno unrhyw beth tebyg yng Nghymru.

Gofynnwyd i'r Grŵp Adolygu Diwygio Tir annibynnol, a sefydlwyd gan Lywodraeth yr Alban ym mis Gorffennaf 2012 ystyried pa mor dda y mae Deddf Diwygio Tir (Yr Alban) 2003 ["Deddf 2003"] wedi cyflawni ei dibenion gwreiddiol. Ystyriwyd barn y Grŵp ar ddarpariaethau mynediad Rhan 1 o Ddeddf 2003 o fewn cylch gwaith ehangach ar gyfer hawl cymunedau a chrofftwyr i brynu tir.

Roedd 120 (25%) o'r ymatebion i'r Grŵp Adolygu Diwygio Tir yn galw am dystiolaeth yn ymwneud â darpariaethau mynediad y Ddeddf 2003. Yn ei adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2014, daeth y Grŵp i'r casgliad bod y fframwaith statudol yn llwyddiant sylweddol sydd wedi arwain at gryn dipyn o fanteision i'r cyhoedd, ond nad oedd amheuaeth bod problemau angen sylw. [15] Mae'r adroddiad yn awgrymu nad oes llawer o awydd am newid deddfwriaethol, bod materion yn codi ynghylch gweithredu, a bod modd datrys y rhan fwyaf o'r rhain dros amser a thrwy ymwybyddiaeth gynyddol o'r Cod Mynediad. Wrth restru nifer o enghreifftiau o broblemau y byddai'n ddefnyddiol i Gymru eu hystyried, daeth tystiolaeth gan Scottish Land and Estates i'r casgliad, pan ystyrir y darlun cyflawn ar draws yr Alban, nad yw cyflwyno hawl mynediad cyhoeddus wedi achosi problemau mawr i dirfeddianwyr. [16] Roedd y problemau a godwyd yn gyfuniad o fynediad yn cael ei atal gan rwystrau ac achosion o ddefnydd anghyfrifol: cŵn yn baeddu a diffyg rheolaeth dros gŵn, a thensiwn rhwng pysgotwyr a chanŵ-wyr.

[15] The Land of Scotland and the Common Good – Adroddiad y Grŵp Adolygu Diwygio Tir, Mai 2014.
[16] Tud.152 o ymateb y Scottish Land and Estate i Grŵp Adolygu Diwygio Tir Llywodraeth yr Alban, Ionawr 2013.

Awgrymwyd y dylai Cymru felly ystyried ymestyn mynediad ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol i'r holl dir, gyda rhai eithriadau, gan gynnwys cwrtil eiddo ac adeiladau fferm. Gan ystyried mynediad mor helaeth, byddai'r cyfle i adolygu'n drwyadl yr hawliau tramwy cyhoeddus presennol, lefel y galw, eu statws cyfreithiol a rheolaeth berthnasol i greu rhwydwaith helaeth o lwybrau addas at y diben. Gallai hefyd fod y cyfle i ddileu neu symleiddio llawer o feichiau gweinyddol y drefn bresennol, mewn perthynas â chreu a diweddaru mapiau o dir mynediad, a'r cofnod cynhwysfawr o lwybrau cyhoeddus. Gallai hyn ganiatáu awdurdodau lleol i flaenoriaethu gwaith cynnal a chadw ar lwybrau sy'n cael eu defnyddio'n amlach yn hytrach na blaenoriaeth gyffredinol i gynnal a chadw llwybrau, hyd yn oed os na chânt eu defnyddio'n aml, os o gwbl.

Byddai newid o’r fath i'r fframwaith deddfwriaethol yn caniatáu cyflwyno mecanweithiau clir ar gyfer cyfyngu ar fynediad yn barhaol a dros dro er mwyn diogelu gweithgareddau, defnydd tir a chadwraeth natur. Gallai hefyd fynd law yn llaw â chod ymddygiad statudol ar gyfer yr holl ddefnyddwyr. Gallai'r sylfaen mynediad hwn feddu ar y potensial i ddarparu fframwaith statudol a all ddiogelu ardaloedd o werth hamdden tra'n cadw hyblygrwydd i fodloni newidiadau yn y galw. Byddai hefyd angen cynnwys ystyriaeth ofalus ynghylch pa ardaloedd ddylai gael eu heithrio o hawliau mynediad newydd o'r fath, a pha weithdrefnau a phrofion y dylid eu sefydlu ar gyfer dileu hawliau mynediad dros dro neu'n barhaol o blaid rheoli tir a chadwraeth natur mewn fframwaith deddfwriaethol newydd.

**Cwestiwn 11: Beth yw eich barn ar y manteision a'r heriau sy’n gysylltiedig â chreu hawl gweithgareddau hamdden cyfrifol i'r holl dir yng Nghymru?**

## 5.2 Mynediad i ddŵr mewndirol

Mae mynediad i ddŵr mewndirol yn fater dadleuol ers amser, a dyma'r mater sydd wedi'i drafod yn fwyaf brwd gan y rhanddeiliaid yn ystod yr adolygiad. Wrth ystyried yr adroddiadau cynyddol am densiwn, neu elyniaeth agored mewn rhai achosion, rhwng defnyddwyr amrywiol, mae'n glir bod angen ystyried ffyrdd o leddfu'r sefyllfa.

<u>Ymchwiliad Pwyllgor Cynaliadwyedd</u>

Mewn ymateb i ddeiseb gan Canŵ Cymru, aeth Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ati i gynnal ymchwiliad i fynediad i ddŵr mewndirol yn 2008. Argymhellodd fod angen ymgymryd ag ymchwiliad ehangach er mwyn caniatáu rhagor o gynrychiolaeth o'r materion. Lansiwyd ymholiad dilynol y Pwyllgor

Cynaliadwyedd i fynediad i ddyfroedd mewndirol yn 2009.[17] Gwnaeth y Pwyllgor gymryd tystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan amrywiaeth eang o grwpiau â buddiant gan gynnwys asiantaethau statudol megis Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gynt, sefydliadau pysgota, canŵio ac eraill.

Diben yr ymchwiliad oedd amlygu'r diffyg cyfleoedd, yn ogystal â natur ddadleuol hawliau i ddŵr ac ar ddŵr ar gyfer gweithgareddau hamdden. Roedd yr argymhellion yn eang ac roeddent yn cynnwys materion yn ymwneud â chytundebau mynediad, ansawdd amgylcheddol a gorfodi, ymysg pethau eraill.

Yn ei hymateb i'r adroddiad a'r argymhellion perthnasol, dywedodd Llywodraeth Cymru ar y pryd ei bod "*committed to addressing the widest possible range of people in the actions that it supports*.

*"The recommendations of the report are focused primarily on those participants in water-based activities who are the more experienced, committed users, and are members of clubs or national governing bodies such as anglers or canoeists. Whilst we accept a number of the recommendations we do not intend to restrict our activities on this issue to ones that meet the needs of only a minority of participants."*

O gofio hyn, rhoddodd Llywodraeth Cymru dros £2.6 miliwn o arian trwy gronfa Gweithgareddau Hamdden Dŵr Sblash rhwng 2008/9 a 2013/14 i annog cyfleoedd gwell a newydd. Er i'r gronfa ddarparu cyfleoedd i lawer mwy o bobl fwynhau gweithgareddau hamdden dŵr, lled gyfyngedig bu ei heffaith o ran sefydlu darpariaeth fynediad newydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymrwymo i gynyddu cyfleoedd ar gyfer mynediad cyhoeddus i dir a dŵr, yn enwedig i deuluoedd a phlant. Mae cyfleoedd am weithgareddau hamdden cyfrifol ar ddyfroedd mewndirol a ger y dyfroedd hyn yn agos at gartrefi pobl yn gynyddol bwysig er mwyn galluogi mwy o bobl o bob gallu a medrusrwydd i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol.

<u>Trefniadau Mynediad Gwirfoddol</u>

Dadleuodd adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd y dylid canolbwyntio ymdrechion yn y tymor byr ar sefydlu cytundebau gwirfoddol, ac mae hyrwyddo eu defnydd yn bolisi i Lywodraeth Cymru ers amser. Darparwyd arian ar gyfer prosiectau peilot am y tro cyntaf yn 2007/8. Y mwyaf nodedig o'r rhain oedd prosiect Cynllun Afonydd Gwy ac Wysg, a sefydlodd drefniant mynediad ar rannau o Afonydd Gwy ac Wysg, ochr yn ochr â gwybodaeth ar-lein a gwybodaeth arall i annog defnydd cyfrifol. Lefel y dŵr yn yr afon yw'r ffactor penderfynu allweddol o ran pryd y dylai canŵau gael mynediad i'r

[17] I gael rhagor o wybodaeth am <u>Ymchwiliad i fynediad i ddŵr mewndirol yng Nghymru</u> y Pwyllgor Cynaliadwyedd

afon, ac mae mesuryddion y gellir eu gwirio ar-lein yn rhoi gwybodaeth i ddarpar ddefnyddwyr.

Roedd yr adroddiad hefyd yn argymell dull gweithredu newydd ar gyfer trefniadau mynediad, er mwyn ceisio rhoi sylw i'r rhwystr rhag cynnydd a achosir gan gytundebau traddodiadol lle mae gofyn i'r partïon lofnodi dogfennau ffurfiol yn nodi amodau defnydd. Barn Llywodraeth Cymru yw y dylai tirfeddianwyr a pherchenogion glannau'r afon lunio trefniadau mynediad, ymgynghori yn eu cylch a'u rhoi ar waith. Gallai mynediad o dan drefniadau o'r fath fod yn fynediad trwy'r flwyddyn, ar adegau penodol o'r flwyddyn, neu yn ddibynnol ar lefelau'r dŵr. Gallent hefyd bennu'r mathau o weithgareddau sy'n gallu cael eu cynnal yn synhwyrol ar unrhyw ran benodol o'r dŵr ar unrhyw adeg benodol o'r flwyddyn. Dylai'r trefniadau hyn ganolbwyntio'n bennaf ar dair elfen:

i. gwarchod yr amgylchedd naturiol;
ii. peidio â chael effaith andwyol ar waith rheoli tir; a
iii. pharchu anghenion defnyddwyr eraill.

Nid oes angen i drefniadau mynediad tebyg i'r rhai a nodir uchod gael eu hystyried yn gydnabyddiaeth nad yw hawliau eisoes yn bodoli. Ni ddylent ychwaith gael eu hystyried yn gydnabyddiaeth eu bod yn bodoli. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na ddylid gweld trefniadau o'r fath fel rhywbeth sy'n pennu terfynau defnydd, ond yn hytrach y cyfleoedd sydd ar gael i rannu defnydd cyfrifol o'r dŵr.

Gall fod yn werth ystyried deddfwriaeth i sefydlu lefel mynediad statudol fel sail i drefniadau o'r fath. Hyd yn oed â sicrwydd statud yn pennu pwy sydd â mynediad i ddyfroedd mewndirol yn yr Alban, mae ardaloedd lle mae grwpiau â buddiant lleol yn cytuno ar drefniadau rheoli gwirfoddol. Mae'r rhain ar waith er mwyn caniatáu ansawdd profiad gwell i'r holl ddefnyddwyr. Er enghraifft, gall cytundebau ddynodi rhan o afon ar gyfer pysgota am nifer penodol o ddiwrnodau'r wythnos, a chanŵio yn ystod y diwrnodau eraill. Canlyniad trafodaethau rhwng pob grŵp â buddiant yw'r trefniadau hyn, gan gynnwys awdurdodau lleol, ac maent yn helpu i hyrwyddo dealltwriaeth a goddefgarwch gwell.

<u>Corff Arweiniol</u>

Gwnaeth y Pwyllgor Cynaliadwyedd lawer o argymhellion yn ymwneud â phenodi corff arweiniol i fod yn gyfrifol am nodi ardaloedd o ddŵr mewndirol lle y gallai trefniadau mynediad fod yn briodol a chyd-drafod mynediad hamdden difodur yn yr ardaloedd hynny.

Mae'r argymhellion hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar ddeddfu ar gyfer corff arweiniol, ond mae dadl dros gytuno, heb yr angen i ddeddfu, ar benodi corff a all gyd-drafod yn ddefnyddiol â'r holl fuddiannau allweddol.

Honiadau am fynediad cyffredinol

Er mwyn deall yn well farn wrthwynebol ar fodolaeth hawl mynediad cyffredinol, ceir isod grynodeb o'r honiadau a wnaed gan y rheini sy'n honni bod hawliau eisoes yn bodoli, a chan y rheini sydd o'r farn nad ydynt yn bodoli.

*Hawliau cyffredinol cyfredol (y ddadl o blaid)*

Mae'r hawl mordwyo gyffredinol yn dyddio yn ôl i amser cyn cof (1189AD mewn enw). Ar y pryd, roedd yr holl dir yn Lloegr (roedd gan Gymru ei chyfreithiau ei hun tan 1284AD), gan gynnwys gwelyau a glannau afonydd dilanw, yn eiddo i'r Goron, ac yn debyg i afonydd llanw, byddent wedi'u neilltuo i ddefnydd cyhoeddus.

Bod tystiolaeth i ddangos y cafodd mynediad cyhoeddus cyffredinol i ddŵr ar gyfer mordwyo at ddibenion masnachol a hamdden ei gydnabod gan gyfreithyddion canoloesol (sylwebyddion cyfreithiol) mor bell yn ôl â'r drydedd ganrif ar ddeg.

Rhoddodd y Magna Carta a statudau hynafol eraill ddiogelwch ar gyfer hawliau mynediad cyffredinol sefydledig. Ni wnaeth eu diddymiadau dilynol ddirymu'r hawliau, dim ond diogelwch yr hawliau hynny.

Nad oes yr un statud yn gwadu'r mynediad cyffredinol cyhoeddus.

*Dim hawliau cyffredinol cyfredol (y ddadl yn erbyn)*

Nad oes tystiolaeth hanesyddol ddibynadwy na chynsail i gyfraith gyffredin fodern i gadarnhau hawl mynediad gyffredinol.

Nid yw sylwebaethau blaenllaw modern (gan gynnwys Halsbury's Laws of England a Woolrych on Waters) yn cefnogi'r farn ar fynediad cyhoeddus cyffredinol cyfredol i ddyfroedd dilanw. Y consensws cyffredinol yw nad yw gwelyau dyfroedd dilanw wedi'u breinio yn y Goron; felly yn fwy na thebyg, maent yn eiddo i berchenogion glannau'r afon neu'r tirfeddianwyr cyffiniol.

Bod y statud yn cynnwys afonydd arwyddocaol penodol, gan gynnwys Afon Tafwys ac Afon Trannon. Nid yw'n awgrymu mynediad cyffredinol. Yn hytrach, mae'n dynodi'r gwrthwyneb.

Nad oes statud sy'n caniatáu mynediad cyffredinol.

*Honiadau y cytunwyd arnynt am fynediad cyffredinol*

Mae hefyd nifer cyfyngedig o feysydd lle mae eiriolwyr a gwrthwynebwyr hawl mynediad cyffredinol tybiedig yn cytuno. Mae'r rhain yn cynnwys:

> Bod hawl mordwyo cyhoeddus yn bodoli lle gwneir afon neu sianel yn fordwyadwy trwy arian cyhoeddus neu gan awdurdod cyhoeddus; lle mae wedi'i neilltuo yn bwrpasol at ddefnydd cyhoeddus ers amser hir; neu lle mae wedi'i chreu i gymryd lle sianel yr oedd mynediad cyhoeddus iddi.
> Y gall hawl mordwyo cyhoeddus gael ei diddymu gan statud; trwy orchymyn Cyfoeth Naturiol Cymru (yng Nghymru yn unig ac mewn amgylchiadau cyfyngedig); neu o ganlyniad i achosion naturiol.

Mae'n amlwg bod angen annog rhagor o gydweithio a chydlyniant rhwng y rhai ar ddwy ochr y ddadl er mwyn sicrhau defnydd cyfrifol a chytûn o'n hafonydd. Efallai bod sefydlu rhagor o eglurder a sicrwydd ynghylch lle y gall pobl fynd, a'r hyn y gallant ei wneud yno, yn un ffordd o symud y drafodaeth hon yn ei blaen.

<u>Sefydlu fframwaith rheoleiddio</u>
Gallai deddfu i sefydlu'r hawliau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â dyfroedd mewndirol o bosibl ddarparu'r eglurder a'r sicrwydd y mae eu hangen er mwyn sefydlu trefniadau mynediad lleol sy'n cael eu gweld fel rhai synhwyrol a theg; helpu i ddatblygu consensws a lleihau gwrthdaro; a gallai helpu i sefydlu lefelau o atebolrwydd i ddiogelu tirfeddianwyr. Yna gallai gweithgareddau rhydd cyfredol (a ystyrir yn gyfreithiol neu fel arall) gael eu cynnwys mewn deddfwriaeth gyfoes a fframwaith rheoleiddio.

Yn ystod yr adolygiad, cawsom ystod gyfyngedig o sylwadau am yr hyn a allai gael ei gynnwys yn y ddeddf. Roedd y farn ar y mater wedi'i rhannu'n bendant – y rheini a oedd yn gweld cyfle i ddeddfu er mwyn cadarnhau mynediad anghyfyngedig i ddyfroedd mewndirol, a'r rheini a oedd yn gwrthwynebu'r ddeddf i greu mynediad anghyfyngedig i ddyfroedd mewndirol. Rydym o'r farn bod llawer o opsiynau o bosibl

rhwng y safbwyntiau hyn, y dylid eu clywed a'u hystyried. Hoffem gael eich barn ar yr hyn y dylai unrhyw ddeddfwriaeth newydd ei gynnwys, os o gwbl.

Gallai'r rhain gynnwys:

**i**. Gallai deddfwriaeth sy'n ymwneud â chorff statudol, fel sy'n cael ei nodi yn yr adran uchod, ganiatáu i un sefydliad helpu i sefydlu trefniadau mynediad, a helpu i orfodi'r trefniadau hynny.

**ii.** Yn ogystal ag **i.** uchod, gallai'r corff statudol feddu ar y pwerau i ddynodi rhannau o ddŵr ar gyfer mynediad hamdden gydag amodau penodol, gan gynnwys y math o ddefnydd, yr adeg o'r flwyddyn ac ystyriaethau amgylcheddol.

**iii**. Ystyried dŵr yn yr un fframwaith ar gyfer tir sy'n cael ei nodi yn opsiwn B uchod, lle codir y cyfyngiadau presennol sydd wedi'u cymhwyso i dir mynediad er mwyn caniatáu rhagor o fynediad i ddŵr.

**iv.** Ystyried dŵr yn yr un fframwaith deddfwriaethol ar gyfer tir sy'n cael ei nodi yn opsiwn C ["diwygio mynediad"] uchod, lle ymestynnir y diffiniad presennol o dir mynediad (o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy) i gynnwys ardaloedd eraill, dŵr yn yr achos hwn, ond â chyfyngiadau ac eithriadau lle y mae eu hangen er mwyn atal niwed i ddefnyddwyr, gwaith rheoli tir neu'r amgylchedd naturiol.

**v.** Gallai deddfwriaeth sefydlu pwerau ar gyfer trwyddedu bad masnachol i'w ddefnyddio ar afonydd Cymru lle bo deddfwriaeth yn caniatáu hyn. Un o'r pryderon allweddol a leisiwyd yn ystod yr adolygiad oedd bod sefydliadau masnachol yn defnyddio afonydd heb gyfrannu at y gwaith o gynnal a chadw'r dyfrffyrdd neu'r glannau.

**vi**. Dewis arall fyddai ystyried dŵr mewndirol yn yr un fframwaith deddfwriaethol ar gyfer tir sydd wedi'i nodi yn opsiwn D uchod, lle caiff hawl mynediad cyffredinol ei chymedroli gan gyfyngiadau penodol i ddiogelu buddiannau eraill, megis pysgota, treftadaeth a chadwraeth natur. Mae hyn eisoes yn wir yn yr Alban lle gwnaeth Deddf Diwygio Tir (Yr Alban) 2003 yn fwriadol roi'r un darpariaethau ar waith ar gyfer tir a dŵr – hyd yn oed i'r graddau lle gall statws llwybr craidd gael ei roi i afonydd.

**Cwestiwn 12: Pa ddull rydych yn ei argymell i wella cyfleoedd ar gyfer mynediad cyfrifol ar gyfer gweithgareddau hamdden ar ddyfroedd mewndirol?**

## 5.3 Mynediad i Ddyfroedd Arfordirol a'r Môr

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn mynediad i'r arfordir, ac wedi'i hyrwyddo ers nifer o flynyddoedd. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu Llwybr Arfordir

Cymru sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, trafodir mynediad i dir arfordirol yn adran **5.1 C** uchod.

Yn draddodiadol, mae mynediad i ddyfroedd arfordirol wedi bod yn llai dadleuol na mynediad i ddyfroedd mewndirol. Mae consensws cyffredin, os nad anesmwyth, bod hawl mynediad cyffredinol ar ddyfroedd llanwol, gan gynnwys rhannau llanwol o afonydd, aberoedd a'r môr. Er eglurder – nid oes dim hawl mynediad cyffredinol ar draws tir i ddyfroedd llanwol.

Mae gweithgareddau mewn dyfroedd arfordirol mor amrywiol â'r rheini sydd ar dir yn unig. Maent yn cynnwys hwylio, pysgota hamdden, ceufadu ar y môr, arforgampau, syrffio a nofio. Yn ôl Adroddiad Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2011, o'r rhai a fu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored yn ystod y pedair wythnos cyn yr arolwg roedd 28% wedi ymweld â thraethau (8% yn uwch na 2008), 26% wedi ymweld â'r môr (11% yn uwch na 2008) a 18% wedi ymweld â rhannau eraill o'r glannau (yr un fath â 2008).

Roedd arolwg 2011 hefyd yn dangos y byddai 60% o bobl Cymru yn hoffi mynd i'r awyr agored yn fwy aml. Byddai tua chwarter oedolion Cymru (26%) yn hoffi ymweld â thraethau'n fwy aml ac fe fyddai 13% yn hoffi ymweld ag ardaloedd arfordirol eraill neu goetir/goedwig. Mae'n amlwg bod awch am fwy o fynediad at weithgareddau hamdden ar yr arfordir a'r môr.

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn y broses o ddatblygu Cynllun Morol Cymru. Yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, ei hamcanion strategol yw:

i. Cyflawni economi morol cynaliadwy;
ii. Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn;
iii. Byw o fewn cyfyngiadau amgylcheddol;
iv. Hyrwyddo llywodraethu da; a
v. Defnyddio cyfrifoldeb gwyddonol cadarn.

Gall gweithgareddau hamdden awyr agored helpu i gyflawni amcanion y Cynllun trwy ddarparu cyfleoedd o ansawdd da i bobl gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol; i wella profiad yr ymwelydd; lleihau beichiau atebolrwydd ar dirfeddianwyr; a sicrhau bod modd diogelu ardaloedd sy'n sensitif yn amgylcheddol neu'n ddiwylliannol.

**Cwestiwn 13: Pa ddull rydych yn ei argymell i wella cyfleoedd ar gyfer mynediad cyfrifol ar gyfer gweithgareddau hamdden ar yr arfordir ac yn yr amgylchedd morol?**

## 5.4 Cod Statudol

Yng Nghymru, rydym ar hyn o bryd yn dibynnu ar gyfres o gylchlythyrau a'r Cod Cefn Gwlad i roi gwybod i dirfeddianwyr a defnyddwyr am eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chael mynediad i gefn gwlad a hawliau tramwy cyhoeddus. Mae angen diweddaru'r cylchlythyrau, a chânt eu targedu yn bennaf at awdurdodau lleol; mae creu'r Cod Cefn Gwlad yn ddyletswydd statudol ar Cyfoeth Naturiol Cymru, ond ar ôl iddo gael ei gyhoeddi, nid oes rhwymedigaeth statudol i gadw at ei gyngor.

Gallai cod cynhwysfawr ddarparu canllaw ar weithgareddau hamdden awyr agored cyfrifol a chyfarwyddyd ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau. Drwy wneud y cod yn un statudol, gellid darparu sail i lywio camau gorfodi. Byddem yn rhagweld y byddai cod o'r fath yn cynnwys canllaw ar yr holl faterion a nodwyd uchod, a meysydd eraill nas deddfwyd ar eu cyfer o bosibl ond sy'n faterion arwyddocaol i dirfeddianwyr a defnyddwyr. Mae'r rhain yn cynnwys cysylltu cymunedau i gael cyfleoedd trwy lwybrau teithio llesol a chludiant cyhoeddus; datblygu capasiti ar gyfer awdurdodau lleol trwy weithio gyda'r sector gwirfoddol; a chyngor ar fioddiogelwch.

**Cwestiwn 14: Beth fyddai manteision ac anfanteision cod ymddygiad statudol cynhwysfawr ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored yng Nghymru?**